

CYNLLUN RHEOLI CARBON PCYDDDS

2025-2030

Sefydliad sy'n barod i'r dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac ymarfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp y Drindod Dewi Sant

CYNNWYS

CYNNWYS.....	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Aliniad â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030.....	4
3. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol.....	5
4. Cyrraedd ein Targedau Cwmpas 1 a 2.....	6
4.1 Meysydd Ffocws.....	7
4.2 Rhagolwg Allyriadau Carbon Cwmpas 1 a 2.....	8
5. Datgarboneiddio Ystadau.....	9
5.1 Prosiectau Cam 1.....	10
5.2 Prosiectau Cam 2.....	11
5.3 Prosiectau Cyfnod 3.....	12
5.4 Blaengynllun Allyriadau Carbon Cwmpas 1 a 2.....	13
6. Rheoli ein hallyriadau Cwmpas 3.....	14
6.1. Trafnidiaeth a theithio cynaliadwy.....	14
6.2. Rheoli adnoddau a gwastraff cylchol.....	14
6.3. Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer.....	14
6.4. Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd.....	14
6.5. Carbon Ymgorfforedig o Brosiectau Cyfalaf.....	15
6.6. Rheoli Carbon Digidol.....	15
7. Ariannu.....	16
8. Targedau CAMPUS.....	17
9. Monitro ac Adrodd.....	18
10. Dolenni at bolisiau a gweithdrefnau eraill.....	19
<i>Cymeradwyaeth</i>	Error! Bookmark not defined.

1. Cyflwyniad





Mae Cynllun Rheoli Carbon 2025–2030 yn ffurfio dogfen gyflawni graidd o dan Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030.

Yn y Strategaeth honno, nodwyd bod Lleihau Carbon yn Flaenoriaeth Strategol 1, gydag amcan clir:





"Cyflawni gostyngiad parhaus yn ôl troed carbon Grŵp PCYDDS trwy effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu adnewyddadwy, a gweithrediadau carbon isel, gan gefnogi'r trawsnewidiad i Sero Net wrth gynnal amgylchedd dysgu gwydn ac o ansawdd uchel."

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn troi'r ymrwymiad strategol hwnnw yn gamau cyflawni gweithredol, targedau mesuradwy, a rhaglenni buddsoddi fesul cam ar draws ystâd y Grŵp.

Mae Grŵp PCYDDS wedi ymrwymo i'r canlynol:

-  Cyflawni targedau lleihau carbon Grŵp Cwmpas 1 a 2 PCYDDS
-  Lleihau'r defnydd o ynni ar draws Ystadau Grŵp PCYDDS
-  Cynyddu kWh ynni o ffynonellau adnewyddadwy sy'n eiddo i'r Grŵp
-  Mesur a lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau digidol

Felly, mae'r Cynllun hwn yn gweithredu o fewn y canlynol:

-  Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2025–2030
-  Cynllun Strategol PCYDDS 2025–2030
-  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
-  Trywydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Erbyn 2030, yr uchelgais yw nid yn unig leihau allyriadau carbon, ond sicrhau bod gwneud penderfyniadau carbon isel wedi dod yn arferol, yn rhan annatod o'r diwylliant, ac yn hunanreoleiddio ar draws PCYDDS.

Mae'r cynllun Rheoli Carbon yn canolbwyntio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac yn benodol:



2. Aliniad â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030





Mae'r Cynllun Rheoli Carbon hwn yn cefnogi'r Weledigaeth Cynaliadwyedd drwy'r tri philer sefydliadol trwy gyflawni Lleihau Carbon Trwy Ein Pobl, ein Pwrpas ac Ein Lle:

EIN POBL: Trwy hyfforddiant llythrennedd carbon, rhaglenni newid ymddygiad, a mentrau ymgysylltu, byddwn yn adeiladu cymuned sy'n ymwybodol o garbon lle mae pob aelod o staff a phob myfyriwr yn deall eu rôl wrth leihau allyriadau.

EIN PWRPAS: Trwy ymgorffori ymwybyddiaeth o garbon mewn prosiectau cwricwlwm, ymchwil a dysgu cymhwysol, rydym yn cefnogi datblygu sgiliau gwyrdd ac yn grymuso dysgwyr i gyfrannu at economi carbon isel.

EIN LLE: Bydd ein hystâd yn labordy byw ar gyfer datgarboneiddio, gan ddangos arfer gorau o ran effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu adnewyddadwy, a datgarboneiddio gwres.





Mae cyflawni Blaenoriaeth Strategol 1 (Lleihau Carbon) yn gofyn am weithredu cydlynol ar draws sawl Blaenoriaeth Strategol o fewn y Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol:

-  Blaenoriaeth Strategol 1 – Lleihau Carbon
-  Blaenoriaeth Strategol 3 – Ystâd Gynaliadwy
-  Blaenoriaeth Strategol 5 – Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Diwylliant
-  Blaenoriaeth Strategol 6 – Monitro ac Adrodd

Felly, nid ymarfer technegol ynysig yw lleihau carbon, ond rhaglen drawsnewid draws-sefydliadol sy'n integreiddio buddsoddiad ystadau, newid ymddygiad, optimeiddio digidol, a goruchwyliaeth llywodraethu.

Mesurau Llwyddiant

Mae Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 yn nodi Mesurau Llwyddiant sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn, gan gynnwys:

-  **SP1.1** - Gostyngiad canrannol yn allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 o'i gymharu â llinell sylfaen 2013/14
-  **SP1.2** - Gostyngiad canrannol yn y defnydd o ynni fesul kWh/m² yn yr ystâd weithredol, o'i gymharu â llinell sylfaen 2024/25
-  **SP 1.3** - Cynnydd mewn termau real, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o ran kWh ynni o ffynonellau adnewyddadwy sy'n eiddo i'r Grŵp gan ddechrau o waelodlin 2024/25
-  **SP 1.4** - Lleihau allyriadau carbon o weithrediadau digidol ar y safle ac oddi ar y safle

Bydd y Cynllun Rheoli hwn yn darparu llwybr cyflawni ar gyfer y mesurau hyn.

3. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol

Wrth symud i Gynllun Rheoli Carbon 2025-2030, dylid cydnabod llwyddiannau cynlluniau blaenorol. Cyflawniadau nodedig "Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net 2022-2024" oedd:

- 🌱 Adeiladu'r Matrics Arloesi i safon 'Ardderchog' BREEAM.
- 🌱 Buddsoddi mewn cynhyrchu ar y safle gan ychwanegu 1,822 o baneli solar ffotofoltäig ar draws yr ystâd a rhagolwg o gynhyrchiant blynyddol o 574,376kWh ac arbediad CO2 o 146.8 tonnelli y flwyddyn o 2025 ymlaen.
- 🌱 Trydaneiddio Fflyd y Brifysgol a dros 65% o gerbydau fflyd y brifysgol wedi newid i fod yn rhai EV gydag arbediad o 58,987 kgCO2e trwy wefru EV yn y flwyddyn 23-24
- 🌱 Mesurau effeithlonrwydd ynni eraill yr Ystâd gan gynnwys uwchraddio ffenestri, goleuadau ac inswleiddio i wella ffabrig adeiladu.
- 🌱 Allyriadau cwmpas 1 a 2 flwyddyn academiaidd 2023/2024 oedd 3,517tCO2e, sef gostyngiad o 54% mewn allyriadau o waelodlin 2013/14.



4. Cyrraedd ein Targedau Cwmpas 1 a 2

- 🌱 Allyriadau Cwmpas 1 - yn dod o weithrediadau sy'n eiddo i PCYDDS neu a reolir ganddi.
- 🌱 Allyriadau Cwmpas 2 - yn dod o gynhyrchu trydan, ager, gwresogi neu oeri a brynir neu a gafaelir, ac a gynhyrchir gan drydydd parti ac a ddefnyddir gan PCYDDS.

At ddibenion olrhain allyriadau carbon PCYDDS, mabwysiadwyd blwyddyn academiaidd 2013/14 yn llinell sylfaen ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2, sef 7,757 tCO₂e. Defnyddiwyd y llinell sylfaen hon ar gyfer pennu targedau lleihau o fewn y cynllun hwn.


Mae PCYDDS wedi ymrwmo i'r targedau canlynol wrth leihau allyriadau cwmpas 1 a 2 yn ystod tymor y cynllun hwn:

Gostyngiad o 50% i 3,878 tCO₂e erbyn diwedd blwyddyn academiaidd 2024/25 –

Cyflawnwyd yn 23/24

70% i 2,327 tCO₂e erbyn blwyddyn academiaidd 2027/28

Does dim un ymyrraeth a fydd yn cyflawni ein huchelgais. Er mwyn cyflawni ein hamcanion, bydd angen cyfuniad o ymyriadau y bydd angen eu cyflawni dros gyfnod y Cynllun Rheoli hwn sy'n cynnwys corff cyfan y Brifysgol a bydd yn dilyn hierarchaeth datgarboneiddio.



Dwysedd Carbon y Grid Trydan

Mae ôl troed carbon y Brifysgol yn dibynnu ar faint o ynni y mae'n ei ddefnyddio ar y safle ac a gyflenwir o'r Grid Cenedlaethol. Dwysedd carbon cyfredol trydan y grid yw 207gms CO₂e fesul kWh. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif y bydd hyn yn lleihau i 66gms CO₂e y kWh erbyn 2035. Byddai hyn yn golygu gostyngiad o 927 tCO₂e ar gyfer PCYDDS yn seiliedig ar y defnydd cyfredol o drydan y grid.

4.1 Meysydd Ffocws

Bydd PCYDDS yn mynd ar drywydd 5 maes ffocws ar gyfer lleihau allyriadau cwmpas 1 a 2 yn ystod y cynllun rheoli hwn, sef:

- **Monitro effeithlon ac adeiladau craffach**

Gyda chymorth Canllawiau Galluogi Digidol y Prifysgolion ar gyfer Cynaliadwyedd, Uwchraddio is-fesuryddion a defnyddio dadansoddeg uwch, gan gynnwys synwryddion monitro a defnydd a alluogir gan AI, i nodi gwastraff ynni, gwneud y gorau o berfformiad adeiladau, a sicrhau y gyrrir ymyriadau gan ddata ac yn effeithiol.

- **Gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hailwampio**

Gweithredu safon adnewyddu gynaliadwy ar draws pob prosiect, gyda gwell gymorth monitro, gyda'r nod o gyflawni isafswm sgôr DEC o B ar draws yr ystâd erbyn diwedd cyfnod y cynllun hwn.

- **Cynyddu'r ynni a gynhyrchir ac a storir ar y safle**

Ehangu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle, yn enwedig paneli ffotofoltäig solar, i fodloni'r galw cynyddol am drydan sy'n deillio o ddatgarboneiddio gwres a lleihau dibyniaeth ar drydan y grid.


- **Datgarboneiddio gwres**

Trosglwyddo i ffwrdd o wresogi nwy naturiol trwy ddefnyddio technolegau gwresogi carbon isel a gwelliannau effeithlonrwydd, gan fynd i'r afael â'r cyfrannwr mwyaf at allyriadau Cwmpas 1 a 2.

- **Rhesymoli ystadau**

Optimeiddio portffolio ystadau trwy flaenoriaethu'r gwaith o gadw a gwella adeiladau ynni-effeithlon, lleihau allyriadau gweithredol a chanolbwyntio buddsoddiad ar asedau strategol bwysig.

4.2 Rhagolwg Allyriadau Carbon Cwmpas 1 a 2



5. Datgarboneiddio Ystadau

Blaenoriaeth Strategol 3 o fewn Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 yw Ystâd Gynaliadwy gyda'r nod canlynol:

Datgarboneiddio a gwella'r ystâd ffisegol trwy fuddsoddi mewn seilwaith carbon isel, bioamrywiaeth, a rheoli adnoddau effeithlon—creu amgylchedd ffisegol gwydn a chynaliadwy sy'n rhoi dysgwyr yn gyntaf.




Yn 2025, cynhaliodd PCYDDS astudiaethau datgarboneiddio adeiladu Cam 2 RIBA ar rannau helaeth o'i ystâd, gan edrych ar brosiectau posibl a mapio'r effaith y byddai'r rhain yn ei chael. Roedd yr ymyriadau yn cynnwys paneli solar ffotofoltäig ar y to, cynlluniau datgarboneiddio gwres, goleuadau LED ac uwchraddiadau effeithlonrwydd eraill. Wedyn defnyddiwyd hyn i lunio rhestr o brosiectau hyfyw a map trywydd wedi'i rannu'n 3 chyfnod.

Gellir categorio'r prosiectau rhestredig ym mhob cam yn ôl y categori ymyrraeth canlynol.

Categori Ymyrraeth	Amcangyfrif o gyfanswm arbedion carbon (tCO ² e)		
	Cyfnod 1 25/26 - 27/28	Cyfnod 2 28/29 - 29/30	Cyfnod 3 30/31 - 34/35
Datgarboneiddio Gwres	74.88	159.83	467.30
Ynni adnewyddadwy	1.65	46.82	65.35
Gwella Ffabrig (gan gynnwys Goleuadau LED)	92	11.29	22.87
Rhesymoli Ystadau	169.55	188	0
Cyfanswm Gostyngiad	337.77	406.07	555.51

5.1 Prosiectau Cyfnod 1


1. Caerfyrddin – Llwyfan
 - 🌱 System Ffotofoltäig Solar a Batri wedi'i gosod yn 2025
 - 🌱 Cynllunio darparu system wresogi ASHP yn 2026
2. Caerfyrddin – T&L
 - 🌱 System ffotofoltäig solar wedi'i gosod 2025
 - 🌱 Bwriad darparu system wresogi ASHP yn 2026
3. Abertawe – Dinefwr
 - 🌱 Cynllunio darparu system wresogi ASHP i adeilad Cerameg 2026
 - 🌱 Cynllunio darparu ar gyfer uwchraddio goleuadau LED i'r safle cyfan 2026/27
4. Abertawe – Technium 1
 - 🌱 Darparu ffotofoltäig solar ychwanegol 2026/27
 - 🌱 Cynllunio darparu system wresogi ASHP yn 2026
 - 🌱 Cynllunio darparu ar gyfer uwchraddio goleuadau LED i'r safle cyfan 2026/27
5. Abertawe – Technium 2
 - 🌱 Cynllunio darparu ar gyfer system wresogi ASHP yn 2026
 - 🌱 Cynllunio darparu ar gyfer uwchraddio goleuadau LED i'r safle cyfan 2026/27
6. Abertawe – Adeilad Alex
 - 🌱 Bwriad darparu ar gyfer uwchraddio goleuadau LED i'r safle cyfan 2027/28
7. Rhesymoli Arfaethedig Ystadau



5.2 Prosiectau Cyfnod 2


8. Aberystwyth – CAWCS
 - 🌱 Cysylltiad â chynllun Pwmp Gwres Ffynhonnell Ddaear LIGC.
9. Caerfyrddin – Llyfrgell a Neuaddau Preswyl ABN
 - 🌱 Gosod Paneli Ffotofoltäig Solar
 - 🌱 Gosod gwresogi ASHP
 - 🌱 Prosiectau goleuadau LED
10. Abertawe – Dinefwr
 - 🌱 Gosod gwresogi ASHP
11. Abertawe – SA1 Glannau
 - 🌱 Gosod System Ynni Adnewyddadwy
12. Rhesymoli Ystadau

Cynod 2 - 2028/29-2029/30



5.3 Prosiectau Cyfnod 3

Prosiectau ychwanegol ar draws Caerdydd, Abertawe a Chaerfyrddin gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i osodiadau solar ffotofoltäig, ASHP a dulliau datgarboneiddio gwres arall, Ffabrig Adeiladu ac uwchraddio goleuadau LED.



5.4 Blaengynllun Allyriadau Carbon Cwmpas 1 a 2




Mae gostyngiadau carbon o'r ymyriadau hyn wedi'u mapio yn y tabl isod gan gynnwys rhagolwg o ddwysedd carbon y grid.

Cyfnod	Blwyddyn	Math	tCO ₂ e		Cyfanswm	% Gostyngiad
			Cwmpas 1	Cwmpas 2		
2012/13	2012/13	Go iawn	2,830	3,479	6,309	
2013/14	2013/14	Go iawn	3,588	4,147	7,735	-23%
2014/15	2014/15	Go iawn	3,562	3,880	7,443	4%
2015/16	2015/16	Go iawn	3,174	3,519	6,693	10%
2016/17	2016/17	Go iawn	3,190	2,954	6,144	8%
2017/18	2017/18	Go iawn	3,035	2,497	5,531	10%
2018/19	2018/19	Go iawn	3,020	2,200	5,220	6%
2019/20	2019/20	Go iawn	2,159	1,354	3,513	33%
2020/21	2020/21	Go iawn	2,507	1,141	3,648	-4%
2021/22	2021/22	Go iawn	2,360	1,191	3,551	3%
2022/23	2022/23	Go iawn	2,129	1,414	3,543	0%
2023/24	2023/24	Go iawn	2,105	1,362	3,467	2%
Cyfnod 1	2024/25	Targed	1,623	1,187	2,811	19%
Cyfnod 1	2025/26	Targed	1,513	1,072	2,585	8%
Cyfnod 1	2026/27	Targed	1,438	857	2,295	11%
Cyfnod 1	2027/28	Targed	1,438	767	2,205	4%
Cyfnod 2	2028/29	Targed	1,413	639	2,051	7%
Cyfnod 2	2029/30	Targed	1,126	492	1,618	21%
Cyfnod 3	2030/31	Targed	1,035	446	1,481	8%
Cyfnod 3	2031/32	Targed	956	413	1,370	7%
Cyfnod 3	2032/33	Targed	863	378	1,241	9%
Cyfnod 3	2033/34	Targed	795	342	1,137	8%
Cyfnod 3	2034/35	Targed	595	240	836	26%
Cyfanswm					836	tCO ₂ e
Cyfanswm % Gostyngiad					76%	

6. Rheoli ein hallyriadau Cwmpas 3

Mae allyriadau cwmpas 3 yn allyriadau anuniongyrchol (heb eu cynnwys yng nghwmpas 2) sy'n digwydd yng nghadwyn werth y sefydliadau adrodd. Mae mesur allyriadau Cwmpas 3 yn gywir yn parhau'n her ond mae'r maes hwn yn datblygu'n gyflym. Bydd y Brifysgol yn gweithredu system gyson a chadarn ar gyfer meintioli, mireinio ac adrodd allyriadau cwmpas 3.

Gan gydnabod mai allyriadau Cwmpas 3 yw 76% o gyfanswm yr allyriadau, mae PCYDDS yn ymrwymo i'r canlynol:



-  Datblygu Map Trywydd Lleihau Cwmpas 3 manwl erbyn 2030.
-  Pennu targed lleihau meintiol ynghylch allyriadau caffael.
-  Trosglwyddo o adrodd yn seiliedig ar wariant i ddata carbon penodol i gyflenwyr.

Gan ddefnyddio model cyfrifo Codio Diwydiannol Safonol (SIC), cyfanswm allyriadau Cwmpas 3 ar gyfer y flwyddyn academaidd 23/24 oedd 10,909 tCO₂e ac roedd yn cyfrif am 76% o gyfanswm allyriadau cyffredinol y Brifysgol. Wrth i fesur allyriadau cwmpas 3 wella ac esblygu, deallir, fodd bynnag, efallai y bydd cynnydd yn yr allyriadau hyn yn ystod cyfnod y cynllun rheoli hwn.

6 maes ffocws ar gyfer lleihau allyriadau cwmpas 3 yn ystod y cynllun rheoli hwn fydd:

6.1. Trafnidiaeth a theithio cynaliadwy



Lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth trwy flaenoriaethu teithio llesol, pontio fflyd allyriadau isel, cyfarfodydd digidol yn gyntaf, a pholisïau cynllunio teithio cryfach, wrth ymgysylltu â staff, myfyrwyr a phartneriaid i leihau teithiau diangen.

-  Llinell sylfaen 2023/24: 1,393 tCO₂e
-  Targed 2030/31: gostyngiad 15% i 1,184 tCO₂e

Mae Cynllun Teithio Cynaliadwy PCYDDS yn rhoi manylion y camau sydd i'w cymryd i barhau i leihau'r allyriadau hyn.

6.2. Rheoli adnoddau a gwastraff cylchol



Cymhwyso egwyddorion economi gylchol i leihau cynhyrchu gwastraff, cynyddu cyfraddau aildefnyddio ac ailgylchu, a dileu gwastraff i safleoedd tirlenwi, gan weithio gyda chyflenwyr a chontractwyr i leihau allyriadau cylch oes.

-  Llinell sylfaen 2023/24: 2.6 tCO₂e
-  Targed 2030/31: gostyngiad 30% i 1.82 tCO₂e

Mae Cynllun Rheoli Gwastraff PCYDDS yn manylu ar y camau sydd i'w cymryd i barhau i leihau'r allyriadau hyn.

6.3. Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer

Lleihau'r defnydd o ddŵr ar draws yr ystâd, gan ddefnyddio mesuryddion i nodi a thargedu digwyddiadau gwastraff yn gynnar ac osgoi defnydd gormodol.



-  Llinell sylfaen 2023/24: 331 tCO₂e
-  Targed 2030/31: gostyngiad 25% i 248 tCO₂e

Mae Cynllun Rheoli Dŵr PCYDDS yn rhoi manylion y camau sydd i'w cymryd i barhau i leihau'r allyriadau hyn.

6.4. Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd

Datgarboneiddio'r ystâd breswyl drwy wella adeiladu ac addysg myfyrwyr sy'n aros mewn neuaddau

preswyl. Bydd yr adran arlwyyo hefyd yn parhau i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â bwyd trwy eu caffael a'u gwasanaeth.

-  Llinell sylfaen 2023/24: 238 tCO²e
-  Targed 2030/31: gostyngiad 20% i 198 tCO²e





Mae Cynllun Bwyd Cynaliadwy PCYDDS yn manylu ar y camau sydd i'w cymryd i barhau i leihau'r allyriadau o Wasanaethau Bwyd a'r Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy ar gyfer allyriadau sy'n gysylltiedig â llety.

6.5. Carbon Ymgorfforedig o Brosiectau Cyfalaf

Bydd gofyn i bob prosiect adeiladu ac adnewyddu mawr gynnal asesiadau carbon oes gyfan a sicrhau y gweithredir atebion technolegol i leihau allyriadau carbon gweithredol. Cyflwynir y manylion hyn yn y Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy.

6.6. Rheoli Carbon Digidol

Bydd y Brifysgol yn dechrau asesu allyriadau Cwmpas 3 sy'n gysylltiedig â gweithrediadau digidol, gan gynnwys:




-  Canolfannau data
-  Cynnal yn y cwmwl
-  Cylch oes offer TG
-  Caffael digidol

Yn ystod y cyfnod 2025-2030, bydd y Brifysgol yn datblygu ei dealltwriaeth o'i hallyriadau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau digidol ac yn sefydlu Cynllun Rheoli Carbon Digidol 2030-2035. Bydd hwn yn diffinio cwmpas, dull mesur, perchnogaeth a llwybrau lleihau pellach ar gyfer y categori allyriadau Cwmpas 3 hwn.





7. Ariannu

Deallir y bydd angen buddsoddiad ariannol ar ddatgarboneiddio gweithrediadau PCYDDS ar adeg pan fo Sector Prifysgolion y DU yn cael trafferth a marchnadoedd ynni yn arbennig o gyfnewidiol. Felly, mae'n hanfodol bod cynlluniau datgarboneiddio yn rhan o'r cynlluniau cynnal a chadw blynyddol arferol ochr yn ochr â buddsoddiad ychwanegol penodol.





Mae dulliau buddsoddi yn cynnwys:

-  Ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru
-  Cyllid grant a phartneriaethau cyfalaf
-  Cylchoedd cynllunio cyfalaf mewnol

Caiff pob penderfyniad cyfalaf mawr ei asesu o ran:

-  Effaith lleihau carbon
-  Cost cylch oes
-  Gwytnwch hinsawdd
-  Cyfraniad at lwybr Sero Net

Datblygir map trywydd datgarboneiddio wedi'i gostio hyd at 2030 a thu hwnt, gan sicrhau bod cynllunio ariannol yn cyd-fynd â thargedau carbon sefydliadol sy'n nodi:

-  Cost cyfalaf fesul ymyrraeth
-  Arbedion carbon (tCO₂e)
-  Cost fesul tonnell a arbedwyd (£/tCO₂e)
-  Ffynhonnell ariannu

8. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol yr holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn wedi eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, dulliau adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi'u halinio â'r cynllun hwn a thargedau Llywodraeth Cymru ynghylch Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus. Cyfuniad ydyn nhw o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau ymddygiadol a strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o leihau allyriadau carbon.

Gellir dod o hyd i'r targedau hyn yma:






https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx

9. Monitro ac Adrodd



Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Flaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd goruchwylio yn dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:



Goruchwyliaeth Weithredol

-  Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
-  Cyfarwyddwr Ystadau
-  Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
-  Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
-  Adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol bob tymor




Goruchwyliaeth Llywodraethu

-  Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
-  Cyngor y Brifysgol

Sicrwydd Allanol








-  System Rheoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
-  Archwiliad allanol blynyddol

O ran y cynnydd:

-  Adroddir arno'n flynyddol drwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
-  Caiff ei integreiddio ar ddangosfyrddau dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol
-  Pan fo'n briodol, caiff ei alinio â fframweithiau cydnabyddedig megis SBTi

10. Dolenni at bolisiau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

-  Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
-  Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
-  Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Ynni 25-30
-  Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
-  Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
-  Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

Awdur(on) y polisi:

Dan Priddy

Teitl y Swydd: Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Wedi'i gymeradwyo gan:

Peter Mannion

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

Dyddiad: 01/06/2026

Rheolydd fersiynau'r ddogfen

Rhif Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad newid:

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David